# Min y Traeth Tymor yr Hydref

**Bwletin i rieni Ysgol Eifionydd** **www.ysgoleifionydd.org** **Rhifyn : 6**

**Gair gan y Pennaeth**: Bu'n dymor prysur a llewyrchus i ddisgyblion a staff Ysgol Eifionydd. Rydym yn gobeithio bod disgyblion blwyddyn 7 wedi mwynhau eu tymor cyntaf efo ni, rydym wedi mwynhau dod i'w hadnabod. Roedd canlyniadau Mathemateg blwyddyn 11 yn glôd i'r ysgol gyda 78% o ddisgyblion yn cyflawni graddau A* - C – y canlyniad uchaf yng Ngwynedd ac un o'r uchaf yng Ngogledd Cymru. Pob lwc i'n blwyddyn 11 presennol sy'n aros am eu canlyniadau Mathemateg yn Ionawr yn dilyn arholiadau TGAU ym mis Tachwedd. Roedd yn bleser gwrando ar gôr iau yr ysgol yn canu carolau wrth i Borthmadog droi eu goleuadau Nadolig ymlaen, byddent hefyd yn perfformio yng nghartref henoed Bodawen ac yng Nghyngerdd Nadolig yr ysgol. Mae'r Bwletin yma yn rhoi blas o rai o weithgareddau eraill sydd wedi digwydd yn ystod y tymor yma. Diolch am eich cefnogaeth parod a hoffwn gymryd y cyfle yma i ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chi.

*Dewi Bowen*

## Dyddiau Pwysig

- **18 Rhagfyr** – Cyngerdd Nadolig
- **20 Rhagfyr** – Diwrnod Swmperi 'Dolig
- **20 Rhagfyr** – Ras Sion Corn
- **Ysgol yn cau 20/12/17 ac ail agor 8/01/18**
- **Ionawr 2018 – TGAU** – TGAU Llenyddiaeth Cymraeg a Saesneg
- **23 Ionawr 2018** – Noson Rieni Bl.11

**12/09/17 Gweithdy Mirror Mirror i flwyddyn 8**

Mae manteisio ar blant yn rhywiol yn fater o bryder cyhoeddus, ac mae'n gyfrifoldeb ar bawb i sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu diogelu'n ddigonol. Cododd gweithdy Mirror Mirror ymwybyddiaeth ymhlith disgyblion blwyddyn 8 a rhoddodd wybodaeth iddynt am y peryglon.

**13 – 17 Tachwedd - Wythnos Gwrth Fwlio**

Trefnwyd nifer o weithgareddau yn ystod yr wythnos yma i flwyddyn 8. Cafwyd gweithdy RAP gydag Ed Holden a gweithdy Drama hefo Barnados a gweithdy hefo Iwan o'r Urdd. Rhoddodd PC Dewi Owen gyflwyniad i pawb ar Seiber fwlio. Diolch i bawb a gyfrannodd tuag ar yr wythnos. Daeth yr wythnos i ben gyda disgo i flwyddyn 7 ac 8 yn y Neuadd. Diolch i PCSO Mark Hughes am fod yn DJ i ni.

## Chwaraeon:

Llongyfarchiadau i:

► Grace McMeeken ar ddod yn ail yng Nghystadleuaeth Tymblo Gymnasteg trwy Brydain Fawr.

► Awen Puw a Lleucu Lane ar gael eu dewis i gynrychioli tim hoci Gwynedd dan 16.

► Mali Quaeck a fu'n chwarae Rygbi yn erbyn y Scarlets U18 yn Stadiwm ZipWorld, Eirias Parc yn ddiweddar.

► Dwyryd Rogers sydd wedi cynrychioli RGC West dan 15 yng Nghaerdydd.

► Dymunwn bob lwc i Medi Harris mewn cystadleuaeth nofio yng Nghanada a Texas yn fuan.

**Aelodau'r Cyngor Ysgol** – dyma restr o'r disgyblion a etholwyd i'r Cyngor Ysgol eleni: Bronwyn Butler, Josh Ormston, Cai Williams, Shayna Vidamour, Gwenno Jones, Macy Thomas, Myfyr Parry, Fflur Williams, Charlotte Butler, Jack Burnett Arnold, Iwan Evans, Anest Edwards, Gareth Jones, Millie Nunn Booton, Elgan Roberts. Mae'r Cyngor Ysgol yn cyfarfod unwaith y mis.

Ar y 10fed o Hydref, fe wnaeth y Cyngor Ysgol drefnu Bore Coffi hynod lwyddiannus er mwyn codi arian ar gyfer elusen Macmillan. Bu nifer o'r staff a'r cyhoedd yn brysur yn pobi cacennau a danteithion o bob math ar gyfer yr achlysur. Llwyddwyd i godi £287.00 ar gyfer yr elusen teilwng hwn. Diolch yn fawr i bawb a gyfranodd at lwyddiant y bore.

**MENTORA CYMAR**

Mae criw o ddisgyblion Blwyddyn 10 yn rhoi cymorth i ddisgyblion blwyddyn 7, 8 a 9 yn ystod eu hamser cinio.

**Pa fath o gymorth?**

- Cymorth i ddisgyblion Blwyddyn 7, 8 a 9 gyda'u gwaith ysgol/cartref.
- Cymorth gyda darllen.
- Helpu Blwyddyn 9 gyda'u dewisiadau.

**Mae'r profiad yma yn rhoi cyfle i'r mentor:**

- ddatblygu sgiliau newydd;
- wneud gwahaniaeth i rywun arall;
- gyfrannu at ddatblygiad rhaglen mentora cymar Ysgol Eifionydd;
- ymgymryd â chyfrifoldeb pwysig o fewn yr ysgol sydd yn arwain at fwy o barch gan gyd-ddisgyblion.

**YSGOLION CREADIGOL**

Ers mis Hydref mae dosbarth o flwyddyn 7 wedi bod yn gweithio â dau artist proffesiynol yr wythnos. Mae Martin Daws yn fardd ac yn rapiwr proffesiynol ac mae Martin Thomas yn actor ac yn gyfarwyddwr penigamp. Gyda'i gilydd maent yn gweithio ar ddatblygu medrau'r disgyblion yn y Saesneg gan ganolbwyntio ar lafar, darllen, ysgrifennu a pherfformio drwy gyfrwng y Saesneg. Mae'r disgyblion, yr artistiaid a'r athrawon yn edrych ymlaen at y sesiynau bob dydd Iau.

**Staff:** Croeso i Mr. Gareth Hughes sydd wedi dechrau ar ei swydd newydd yn dysgu Cerdd yn yr ysgol a chroeso'n ôl i Mr. Gareth Crowe fel Uwch Gymhorthydd ymddygiad. Gobeithio y bydd y ddau yn hapus iawn yma yn Eifionydd. Dymunwn yn dda i Miss Lona Williams yn ei swydd newydd fel athrawes Gerdd yn Ysgol Ardudwy.
Llongyfarchiadau mawr i Mrs. Mary Gwyn ar enedigaeth Math ac i Mrs. Laura Hughes ar enedigaeth Robin. Croeso i Miss Emily Young a fydd yn llenwi cyfnod mamolaeth Mrs. Gwyn a Miss Cerian Griffith a fydd yn llenwi cyfnod mamolaeth Mrs. Hughes.

**BYDIS**

Cynllun hybu cefnogaeth gan ddisgyblion blwyddyn 10 ar gyfer disgyblion ifancach sydd angen cymorth. Mae'r bydis yn cynnig sesiynau mentora un i un ac maent hefyd wedi derbyn hyfforddiant ar sut i gynghori mewn meysydd fel:

- Ymddygiad
- Bwlio
- Unigrwydd

**Choose Life:** Mae camddefnydd o gyffuriau anghyfreithlon ymysg yr ifanc yn broblem cymdeithasol sylweddol hyd yn oed yng nghefn-gwlad Cymru. Yn sgil hyn mae'r ysgol wedi gwahodd Choose Life mewn i drafod y peryglon gyda Blwyddyn 8 a 9.

**Manteision addysg dwyieithog.**

Rydym yn falch iawn o'r addysg ddwy-ieithog sy'n cael ei gynnig yma'n Eifionydd. Mae ymchwil rhyngwladol wedi profi bod pobl ddwyieithog yn duedddol o fod yn fwy llwyddiannus yn yr ysgol a'r coleg ac yn fwy hyblyg o ran eu meddwl. Yng Nghymru gall pobl ddwyieithog ennill rhwng 8% a 10% yn fwy o arian o gymharu â phobl uniaith. Mae llawer mwy o alw ar bobl ddwyieithog mewn llawer o feysydd gwaith ar draws Cymru a Gwynedd.

# Min y Traeth Autumn Term 2017

**Ysgol Eifionydd Parents' Bulletin** **www.ysgoleifionydd.org** **Issue : 6**

**A few words from the Head teacher:** It has been a busy and productive term for Ysgol Eifionydd pupils and staff. We hope Year 7 have enjoyed their first term with us, we have enjoyed getting to know them. Last year's Year 11 Maths results are a credit to the school with 78% of pupils achieving A* - C grades, the highest result in Gwynedd and one of the highest in North Wales. Good luck to our current Year 11 who are expecting their GCSE Maths results in January following the November exams. It was a pleasure listening to the melodic voices of the school's Junior Choir singing carols at the switching on of Porthmadog's Christmas lights. They will also be performing at Bodawen Nursing Home and the school's Christmas Concert. This bulletin gives you a taste of some of the other activities which have taken place this term. Thank you for your continuing support and let me take this opportunity to wish you all a Merry Christmas and a Happy New Year. *Dewi Bowen*

**Important Dates**

- **18 December** – Christmas Concert
- **20/12/17** – Christmas Jumper day
- **20/12/17** – Santa Run
- **20/12/17** – school closes and re-opens 8/01/18
- **January 2018** – GCSE Welsh and Englsih Literature
- **23 January, 2018** – Year 11 Parents evening

**12/09/17 Mirror Mirror workshop for Year 8**

Child sexual exploitation is currently a prevalent issue, and it is everyone's responsibility to ensure that young people are adequately safeguarded. The Mirror Mirror workshop raised awareness amongst Year 8 pupils and informed them of the risks.



**13 – 17 November – Anti-bullying week**

A number of activities was arranged during the Anti-bullying week for Year 8. They had a RAP workshop with Ed Holden, a Drama workshop with Barnados and a workshop with Iwan from the Urdd. PC Dewi Owen gave a presentation on Cyberbullying. Thank you to everyone who contributed towards the Anti-bullying week. The week came to an end with a disco for years 7 and 8 in the school hall. Thank you to PCSO Mark Hughes for being our DJ for the afternoon.



**Sports:**

**Congratulations to:**

►Grace McMeeken for coming second in the UK Tumbling Gymnastics Competition.

►Awen Puw and Lleucu Lane for being chosen to represent the Gwynedd Hockey Under 16 team.

►Mali Quaeck who was chosen to play against the Scarlets U18 in the ZipWorld stadium, Eirias Parc recently.

►Dwyryd Rogers for Representing RGC West under 15 in Cardiff.

► We wish Medi Harris good luck in the International Swimming Competitions held in Canada and Texas soon.

**School Council members** – the members of the school council this year are: Bronwyn Butler, Josh Ormston, Cai Williams, Shayna Vidamour, Gwenno Jones, Macy Thomas, Myfyr Parry, Fflur Williams, Charlotte Butler, Jack Burnett Arnold, Iwan Evans, Anest Edwards, Gareth Jones, Millie Nunn Booton, Elgan Roberts. The School Council meets once a month.

On the 10th of October the School Council arranged a successful Macmillan Coffee Morning. A number of staff and public had been busy baking cakes towards the occasion. A total of £287.00 was raised towards this worthy charity. Thank you to all who contributed towards the success of the Coffee Morning.

**PEER MENTORING**

A group of Year 10 pupils are supporting pupils in year 7, 8 and 9 during their lunch hour.

**What kind of support?**

- Support for pupils in Year 7, 8 and 9 with their school/homework.
- Reading support.
- Helping Year 9 with their choices.

**This experience gives the mentor a chance to:**

- develop new skills;
- make a difference to someone else;
- contribute to the development of the Peer Mentoring programme;
- undertake an important responsibility within the school that leads to more respect from fellow pupils.

**CREATIVE SCHOOL**

Since October a Year 7 class has been working with two professional artists once a week. Martin Daws is a professional poet and rapper and Martin Thomas is an actor and director. Together they work on developing pupils' skills in English by focusing on oral, reading, writing and performing through the medium of English. The pupils, artists and teachers look forward to the sessions every Thursday.

**Staff:** Welcome to Mr. Gareth Hughes who started teaching Music here at the school in September and welcome back to Mr. Gareth Crowe, Higher Level Teaching Assistant - Behaviour. We hope they will both be happy at Ysgol Eifionydd. We wish Miss Lona Williams well in her new job as a music teacher in Ysgol Ardudwy. Congratulations to Mrs. Mary Gwyn on the birth of her son Math and to Mrs. Laura Hughes on the birth of her son Robin. Welcome to Miss Emily Young who will be covering Mrs. Gwyn's maternity leave and Miss Cerian Griffith who will be covering Mrs. Hughes' maternity leave.

**Choose Life:** Illegal drug abuse is a significant social problem amongst the young even in rural Wales. Because of this the school has invited Choose Life in to discuss the dangers with Year 8 and 9.

**BUDDIES**

A scheme promoting support from year 10 pupils to younger pupils who need help. The buddies will offer one to one mentoring sessions and have also received training on how to counsel in areas such as:

- Behaviour
- Bullying
- Loneliness

**The advantages of a bilingual education.**

We are very proud of the bilingual education offered here at Ysgol Eifionydd. International research has proven that bilingual people tend to be more successful in schools and colleges and are flexible thinkers. Bilingual people in Wales will earn between 8% and 10% more in salaries each year compared with people who speak only one language. There is a growing need for bilingual people across many areas of work in Wales and Gwynedd.